# FFORWM MYNEDIAD LLEOL CEREDIGION

# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022-23

Cyngor Sir Ceredigion
Penmorfa, Aberaeron
Ceredigion, SA46 0PA

# FFORWM MYNEDIAD LLEOL CEREDIGION – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022-23

Lluniwyd adroddiad blynyddol Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion yn unol â Rheoliad 16 Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001.

Mae'r adroddiad yn edrych ar waith y Fforwm Mynediad Lleol yn ystod 2022-2023 ac mae'n nodi'r rhaglen waith arfaethedig ar gyfer y tymor.

## SWYDDOGION Y FFORWM

| | |
|---|---|
| Cadeirydd: | Peter White |
| Is-gadeirydd: | Dic Evans |
| Ysgrifennydd: | Eifion Jones (Cyngor Sir Ceredigion) |

## CYNNWYS


1. FFORWM MYNEDIAD LLEOL CEREDIGION ............................................
2. AELODAETH Y FFORWM MYNEDIAD LLEOL...........................................
3. GWEITHGAREDDAU'R FFORWM MYNEDIAD LLEOL, 2022-2023............
4. Y RHAGLEN WAITH ........................................................................

ATODIADAU

A Cynllun o Geredigion

B Swyddogaethau Fforymau Mynediad Lleol: Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000

C Aelodaeth Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion

## 1. FFORWM MYNEDIAD LLEOL CEREDIGION

Sefydlwyd Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion, a elwir wedi hyn yn 'Fforwm', ym mis Ebrill 2002 o dan ddarpariaethau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae'r Fforwm yn cynghori'r awdurdod lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill ynghylch y ffordd y gellid gwella mynediad cyhoeddus i dir at ddibenion hamddena yn yr awyr agored a mwynhad o'r ardal[1] (Atodiad B).

Wrth gyflawni'r swyddogaeth hon, dylai'r Fforwm ystyried y canlynol[2]:

- Yr anghenion o ran rheoli tir;
- Pa mor ddymunol fyddai gwarchod harddwch naturiol yr ardal, gan gynnwys y bywyd gwyllt, nodweddion daearegol a'r tirffurf; a'r
- Cyfarwyddyd a roddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Daeth cyfnod tair blynedd y Fforwm blaenorol i ben ym mis Mawrth 2021 a phenodwyd Fforwm newydd ar gyfer y cyfnod rhwng 2022 a 2025 yn unol â'r Rheoliadau[3].

Cyfarfu'r Fforwm bedair gwaith yn ystod 2022 - 2023:

30 Mehefin 2022
29 Medi 2022
19 Ionawr 2023
20 Ebrill 2023

Cynhaliwyd y cyfarfod ar 30 Mehefin yn rhithiol oherwydd roedd y protocolau COVID yn parhau. Cyfarfod hybrid oedd y cyfarfod ar 29 Medi, a dyma oedd y cyfarfod wyneb yn wyneb cyntaf yn dilyn COVID. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn yn neuadd bentref Llanddewi Brefi. Cyfarfod rhithiol oedd y cyfarfod ar 19 Ionawr oherwydd tywydd garw. Cyfarfod hybrid oedd y cyfarfod ar 20 Ebrill gyda'r elfen wyneb yn wyneb yn cael ei chynnal ym Mhenmorfa, Aberaeron. Rhoddwyd gwybod am gyfarfodydd y Fforwm, gan gynnwys yr agendâu a gwybodaeth arall, ar dudalen we'r Fforwm ar wefan Cyngor Sir Ceredigion[4].

Cyfarfu is-bwyllgor y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy i ystyried cynnydd y Cynllun ac i adolygu'r Prif Rwydwaith Llwybrau bob 6 mis. Cynhaliwyd y cyfarfodydd yn rhithiol ar:

23 Awst 2022
2 Rhagfyr 2022

---

1 Adran 94(4), Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
2 Adran 94(6), Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
3 Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001
4 www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=11843

Etholwyd Richard Price yn Gadeirydd yr is-bwyllgor yn y cyfarfod ar 23 Awst ac etholwyd Felicity Wills yn Is-gadeirydd yn yr un cyfarfod.

## 2. AELODAETH Y FFORWM MYNEDIAD LLEOL

Y Cyngor Sir (fel yr 'awdurdod penodi') sy'n gyfrifol am ddewis aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol. Mae'r Fforwm yn cynnwys cadeirydd ac is-gadeirydd, a rhwng 10 ac 20 o aelodau eraill. Mae'n rhaid i'r awdurdod benodi aelodau sy'n gynrychioliadol o ddefnyddwyr yr hawliau tramwy cyhoeddus neu'r tir mynediad, perchnogion / meddianwyr y tir mynediad neu'r tir lle mae hawliau tramwy cyhoeddus, ac eraill sydd â buddiannau perthnasol i'r sir. Mae'r awdurdod wedi ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng defnyddwyr y tiroedd mynediad a'r hawliau tramwy a'r sawl sy'n berchen / meddiannu'r tiroedd hyn wrth benodi aelodau'r Fforwm.

Mae'r aelodau yn eistedd ar y Fforwm am gyfnod o dair blynedd o'r dyddiad penodi (oni therfynir yr aelodaeth). Yn 2022 penododd y Cyngor Sir aelodau i eistedd ar y pwyllgor am y cyfnod rhwng 2022 a 2025. Gweler aelodaeth y Fforwm yn Atodiad C.

Gall sylwedyddion statudol o Gyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru fynychu cyfarfodydd y Fforwm. Mae cynrychiolwyr o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol hefyd wedi'u gwahodd i'r cyfarfodydd yn ystod y cyfnod rhwng 2022 a 2025 a hynny fel sylwedyddion a chynghorwyr; mae'n bosib y bydd sefydliadau eraill yn cael eu gwahodd o dro i dro yn ystod y tymor os bydd yr aelodau'n credu y byddai'n ychwanegu gwerth a buddiant i waith y fforwm.

## 3. GWEITHGAREDDAU'R FFORWM MYNEDIAD LLEOL 2022-2023

Mae'r adran hon yn amlygu prif feysydd o waith y Fforwm yn 2022-2023. Mae cofnodion cyfarfodydd y Fforwm yn darparu cofnod manylach o'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn.

### i) Prosesau Fforwm Mynediad Lleol:

**Penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Fforwm Mynediad Lleol**
Penodwyd Mr Peter White yn Gadeirydd y Fforwm ar 30 Mehefin 2022. Penodwyd Mr Dic Evans yn Is-gadeirydd ar 29 Medi 2022.

**Swyddogaethau'r Fforwm Mynediad Lleol**
Ar wefan y Cyngor gellir gweld dogfen sy'n rhoi manylion ynghylch swyddogaethau'r Fforwm gan ystyried y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, rheoliadau Llywodraeth Cymru a chanllawiau Cyfoeth Naturiol

Cymru, ynghyd â rheolau sefydlog a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y Fforwm.
https://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/yr-arfordir-a-chefn-gwlad/fforwm-mynediad-lleol/

**ii) Hawliau Tramwy a Mynediad:**

**Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Ceredigion.**

Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn darparu fframwaith ar gyfer rheoli Hawliau Tramwy a mynediad yng Ngheredigion am gyfnod o 10 mlynedd. Mae'n ddogfen allweddol ar gyfer y Fforwm oherwydd mae'n nodi'r cyd-destun ar gyfer rhaglen waith y Fforwm a ffordd o asesu'r cynnydd a wnaed o ran gwella hawliau tramwy a mynediad.

Mae is-bwyllgor sefydlog yn cadw golwg ar gynnydd y cynllun ac yn adolygu'r Prif Rwydwaith Llwybrau bob 6 mis.

**Adborth o gyfarfod Cadeiryddion Fforymau Mynediad Lleol yn Y Drenewydd ar 26 Hydref 2022**

Adroddodd y Cadeirydd am y materion a drafodwyd yn y cyfarfod, gan nodi y bu llawer o drafodaeth am rai o'r materion ymarferol yn ymwneud â ffermio cynaliadwy, creu coetiroedd, newid yn yr hinsawdd, cŵn yng nghefn gwlad, a'r gwaith a wnaed fel rhan o'r rhaglen diwygio mynediad.

**Rhaglenni / Gweithgareddau Hawliau Tramwy a Mynediad**

Darparodd yr Ysgrifennydd ddiweddariadau rheolaidd am faterion yn ymwneud â hawliau tramwy a mynediad gan gynnwys y gwaith a wnaed o dan Grant Gwella Mynediad Llywodraeth Cymru a grantiau datblygu / cynnal a chadw Llwybr Arfordir Cymru.

Rhoddodd yr Ysgrifennydd wybod i'r Fforwm am nifer o fentrau a oedd yn digwydd ar draws y sir, gan gynnwys Menter Mynyddoedd y Cambria, Gwyliau Cerdded Tyfu Canolbarth Cymru, Grŵp Ymgynghorol Diwygio Mynediad, Llwybrau i Lesiant, Croeso Cymru a Llwybr Teifi.

Rhoddodd yr Ysgrifennydd wybod i'r Fforwm fod 2023 yn dynodi 15 mlynedd ers agor Llwybr yr Arfordir yng Ngheredigion. Bydd rhaglen o deithiau cerdded tywysiedig a deunydd ynghylch llwybrau cylchol ar hyd llwybr yr arfordir yn cael eu paratoi fel rhan o'r dathlu.

**ii) Sesiynau Briffio / Cyflwyniadau a Materion Eraill:**

**Prosiect Ystrad Fflur**
Rhoddodd yr Athro David Austin o Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant drosolwg o brosiect archeolegol Ystrad Fflur.

**Teithio Llesol**

Rhoddodd Gari Jones, Peiriannydd gyda Chyngor Sir Ceredigion sydd â chyfrifoldeb dros Deithio Llesol, drosolwg o gyfrifoldebau'r Cyngor (o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013) a nododd y gwaith a gwblhawyd / a gynlluniwyd o ran gwella teithio llesol.

**Cymdeithas Mynyddoedd y Cambria - Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol**
Esboniodd Lorna Brazell sut roedd Cymdeithas Mynyddoedd y Cambria yn ceisio hyrwyddo a diogelu Mynyddoedd y Cambria a'r ymgyrch i ddynodi'r ardal yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

**Tîm Troseddau Gwledig Ceredigion**

Daeth Billy Dunne, Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, i'r Fforwm i roi trosolwg o waith y swyddogion, yn benodol eu gwaith o ran cŵn yn tarfu ar dda byw a cherbydau oddi ar y ffordd.

**Llwybr Teifi**

Rhoddodd James Williams (sydd hefyd yn aelod o'r Fforwm) drosolwg o'r gwaith a oedd yn cael ei wneud i ddatblygu Llwybr Teifi, sef llwybr cerdded pellter hir.

## 4. Y RHAGLEN WAITH, 2022 – 2025

Mae rhaglen waith arfaethedig y Fforwm Mynediad Lleol ar gyfer 2022-25 wedi'i nodi isod (cytunwyd ar y rhaglen yng nghyfarfod y Fforwm a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2023).

Datblygwyd y rhaglen waith yn wreiddiol ar ddechrau tymor newydd y Fforwm yn 2022 ac mae'n cynnwys yr eitemau fydd yn cael eu hystyried dros gyfnod hwy o amser. Nid yw'r rhaglen yn cynnwys y materion tymor byr sydd fel arfer yn codi i'w cynnwys ar agendâu. Mae croeso i aelodau'r Fforwm awgrymu eitemau ar gyfer agenda unrhyw gyfarfod.


| **Eitem** |
|---|
| Llwybr Teifi |
| Prosiect Pen Dinas |
| Adroddiad gan y Rheolwr Lleol o Gyfoeth Naturiol Cymru ynghylch y camau gweithredu a'r cynlluniau yng Ngheredigion o ran mynediad a chyfleusterau hamdden. |
| Diweddariad Diwygio Mynediad. Cynrychiolydd o Gyfoeth Naturiol Cymru / Llywodraeth Cymru. |
| Menter Mynyddoedd y Cambria – Statws Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| Menter Mynyddoedd y Cambria (adroddiad am fynediad / hamddena) |
| Prosiect Llwybrau i Lesiant – diweddariad gan Gymdeithas y Cerddwyr |
| Prosiect Portalis |
| Strategaeth Seilwaith Gwyrdd a Glas Ceredigion |
| Coed y Bont – Pontrhydfendigaid |
| Coedwig Cymunedol Longwood |

| |
|---|
| Addysg ynghylch defnyddio llwybrau amlddefnydd yn ddiogel |
| Cyllid ar gyfer prosiectau mynediad |
| Hyfforddiant ar gyfer aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol |
| Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol – Ystad Hafod |

## ATODIAD

### Atodiad A

CEREDIGION: ARDAL Y FFORWM MYNEDIAD LLEOL




*Reproduced from the Ordnance Survey mapping with the permission of the Controller of HMSO © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Cyngor Sir Ceredigion Lce No 100024419, 2012*

**Atodiad B**

(Noder: Mae'r Ddeddf hon wedi'i chyhoeddi yn Saesneg yn unig.)

ACCESS FORUM FUNCTIONS: COUNTRYSIDE & RIGHTS OF WAY ACT 2000

94(4) It is the function of a local access forum, as respects the area for which it is established to advise –

(a) the appointing authority
(b) any body exercising functions under Part I in relation to land in that area,
(c) if the appointing authority is a National Park authority, the local highway authority for any part of that land, and
(d) such other bodies as may be prescribed.

as to the improvement of public access to land in that area for the purposes of open-air recreation and the enjoyment of the area.

94(5) The bodies mentioned in paragraphs (a) to (d) of subsection (4) shall have regard, in carrying out their functions, to any relevant advice given to them by a local access forum under this subsection or any other provision of this Act.

94(6) In carrying out its functions, a local access forum shall have regard to –

(a) the needs of land management,
(b) the desirability of conserving the natural beauty of the area for which it is established, including the flora, fauna and geological and physiographical features of the area, and
(c) guidance given from time to time by the Secretary of State (as respects England) or the National Assembly for Wales (as respects Wales).

**Atodiad C**

AELODAETH FFORWM MYNEDIAD LLEOL CEREDIGION (2022- 2025)

| **Enw** | **A oedd yn Aelod o'r Fforwm Mynediad Lleol blaenorol?** |
|---|---|
| Aeron Jenkins | Oedd |
| Chris Thomas (Mrs) | Nac oedd |
| David Beale | Nac oedd |
| Dic Evans (Is-gadeirydd) | Oedd |
| Emma Davies | Nac oedd |
| Felicity Wills | Oedd |
| Glyn Davies | Oedd |
| James Williams | Nac oedd |
| Mari Davies | Nac oedd |
| Maurice Kyle | Nac oedd |
| Peter White (Cadeirydd) | Nac oedd |
| Raymond Ricketts | Nac oedd |
| Richard Price | Nac oedd |
| Robert Griffiths | Oedd |
| Robin Young | Nac oedd |

| | |
|---|---|
| William Bobbett | Nac oedd |
| Helen Donnan | Nac oedd |
| Y Cynghorydd Clive Davies (Cyngor Sir Ceredigion) | Nac oedd |
| David Hart Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol (Sylwedydd / Cynghorwr) | Nac oedd |
| Michael Smith Cyfoeth Naturiol Cymru (Sylwedydd / Cynghorwr) | Oedd |
| | |
| | |